

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth yn Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

21 Mehefin 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Bydd Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018.

Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno ffi safonol ar gyfer mewnfario 'planhigion i'w plannu' (ac eithrio bylbiau a hadau segur) a 'thoriadau' sy'n adlewyrchu amlder newydd y gwiriadau, yn adfer y ffi ar gyfer samplau a gymerwyd ar fewnforion ac yn ymestyn y Cynllun Cymorth Symud (MAS) i fis Rhagfyr 2023.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau yn cywiro camgymeriad yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021 i adfer darpariaeth sy'n cwmpasu ffioedd ar gyfer samplau a gymerwyd ar fewnforion.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 7 o Atodlen 4 a pharagraffau 12 a 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Rheoliad (EU) 2016/2031 ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion, a Rheoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill (a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion), sefydlu rheolaethau a chyfyngiadau sy'n gymwys i fewnfario a symud yn fewnol planhigion penodol, plâu planhigion a deunydd arall. Diben y Rheoliadau hyn yw helpu i leihau'r risg bioddiogelwch a diogelu'r amgylchedd rhag plâu niweidiol yn lledaenu.

Mae Erthygl 79 o Reoliad (EU) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol codi ffioedd am reolaethau swyddogol penodol, gan gynnwys archwiliadau iechyd planhigion ar lwythi rheoleiddiedig penodol a fewnforiwyd. Mae Rheoliadau 2018 (fel y'u diwygiwyd) yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion, gan gynnwys gwasanaethau arolygu mewnfario, a ddarperir yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2018 yn pennu ffioedd ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd planhigion yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau arolygu mewnfario, cyn allforio ac ardystio allforion i gydymffurfio â gofynion mynediad trydydd gwledydd sy'n ymwneud â deunydd iechyd planhigion a reolir.

Mae'r ffioedd ar gyfer archwiliadau iechyd planhigion a bennir gan Reoliadau 2018 yn cael eu diwygio yn yr offeryn hwn i adlewyrchu amllder y gwiriadau a sefydlwyd o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amllder Gwiriadau) 2022, sy'n cael eu cyflwyno i weithredu trefn arolygu newydd sy'n targedu risg lle bydd amllder archwiliadau iechyd planhigion ar lwythi a fewnforiwyd yn cael ei sefydlu.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Beth wnaeth unrhyw gyfraith berthnasol gan yr UE cyn y diwrnod ymadael?

Mae Rheoliad (EU) 2016/2031 ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion ("y Rheoliad Iechyd Planhigion") a Rheoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol") ("Rheoliadau Prydain Fawr" gyda'i gilydd) yn sefydlu rheolaethau a chyfyngiadau sy'n gymwys i fewnforio a symud yn fewnol planhigion penodol, plâu planhigion a deunydd arall. Diben Rheoliadau Prydain Fawr yw helpu i leihau'r risg bioddiogelwch a diogelu'r amgylchedd rhag plâu niweidiol yn lledaenu.

Mae Rheoliadau 2015 a Rheoliadau 2018 yn pennu ffioedd ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd planhigion. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau arolygu mewnfornion, cyn allforio ac ardystio allforion i gydymffurfio â gofynion mynediad trydydd gwledydd sy'n ymwneud â deunydd iechyd planhigion a reolir.

Beth sy'n cael ei newid?

Mae Erthygl 79 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol codi ffioedd am reolaethau swyddogol penodol, gan gynnwys archwiliadau iechyd planhigion ar lwythi rheoleiddiedig penodol a fewnforiwyd.

Mae'r ffioedd ar gyfer archwiliadau iechyd planhigion a bennir gan Reoliadau 2018 yn cael eu diwygio yn yr offeryn hwn i adlewyrchu amllder y gwiriadau a sefydlwyd o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amllder Gwiriadau) 2022, sy'n cael eu cyflwyno i weithredu trefn arolygu newydd sy'n targedu risg lle bydd amllder archwiliadau iechyd planhigion ar lwythi a fewnforiwyd yn cael ei sefydlu.

Beth fydd yn ei wneud yn awr?

Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno ffi safonol ar gyfer archwiliadau iechyd planhigion ar 'blanhigion i'w plannu' (ac eithrio bylbiau a hadau segur) a 'thoriadau' a fewnforir i Gymru o bob un o'r trydydd gwledydd. Cynigiwyd y polisi hwn yn dilyn pryderon rhanddeiliaid am y ffioedd presennol ar gyfer mewnfornio o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Drwy gyflwyno'r mesur hwn, mae planhigion sy'n

barod i'w gwerthu yn yr UE yn cael eu hatal rhag elwa ar fantais gost dros blanhigion a fewnforir sy'n barod i'w gwerthu ym Mhrydain Fawr.

Mae'r ffioedd a nodir yn y Rheoliadau yn adlewyrchu amllder newydd archwiliadau iechyd planhigion (Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amllder Gwiriadau) 2022) a sefydlwyd o dan y drefn arolygu sy'n targedu risg a fydd yn gymwys o fis Gorffennaf 2022. Bydd y cynllun hwn yr un mor berthnasol i fewnforion o wledydd y tu allan i'r UE a nwyddau â blaenoriaeth uchel o aelod-wladwriaethau'r UE, y Swistir, a Liechtenstein. Yn unol â'r dull safonol o adennill cost lawn darparu gwasanaethau oddi wrth fusnesau sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, mae ffioedd ar gyfer gwiriadau ffisegol, hunaniaeth a dogfennol o dan Reoliadau 2018 yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r amllder a sefydlwyd o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amllder Gwiriadau) 2022.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro camgymeriad yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021") i adfer ffioedd mewnforwyr ar gyfer samplau a gymerwyd ar fewnforion. Mae hyn yn sicrhau bod costau'n cael eu hadennill pan fydd sampl yn cael ei chymryd o'r llwyth, ar gyfer profion labordy i gadarnhau presenoldeb pla planhigion rheoledig.

Yn olaf, mae'r Rheoliadau hefyd yn ymestyn y MAS tan fis Rhagfyr 2023. Mae'r MAS yn cefnogi masnachwyr sy'n symud nwyddau bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon drwy gynorthwyo masnachwyr gyda chynghor ac arweiniad i gydymffurfio â rheolau iechydol a ffytoiechydol newydd ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben yn 2020, gan helpu i dalu costau uniongyrchol.

5. Ymgynghoriad

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad 7 wythnos rhwng 14 Rhagfyr 2021 a 4 Chwefror 2022 ar newidiadau arfaethedig i Ffioedd Arolygiadau Mewnforio ar gyfer Planhigion i'w Plannu yng Nghymru a Lloegr. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys Grŵp Cynghori a Thystiolaeth Iechyd Planhigion Cymru (WPHEAG).

Roedd yr ymatebion a gasglwyd yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig am ffi safonol, gan gynnwys gan WPHEAG. Felly, bwriedir cyflwyno'r ffi arfaethedig ar gyfer categorïau penodol o blanhigion i'w plannu yn y ddeddfwriaeth hon.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: [Ymateb i'r Ymgynghoriad ar ffioedd penodol yng Nghymru a Lloegr – Porthol Gwybodaeth Iechyd Planhigion y DU \(defra.gov.uk\)](#)

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ar ôl ystyried Cod Asesu Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru, prin iawn yw'r effaith ar fusnesau yng Nghymru. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol gan fod y Rheoliadau'n gweithredu

newidiadau blynyddol i ffioedd yn unol â lefel a bennwyd ymlaen llaw yn hytrach na newidiadau sylfaenol i'r gyfundrefn reoleiddio ei hun. Fel y nodwyd yn 3.2 o God Gweinidogion Cymru, mae newid ffeithiol nad yw'n addasu'r polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol yn gymwys fel esemptiad.

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn gyfrifol am wasanaethau iechyd planhigion statudol ar sail Cymru a Lloegr ar ran Gweinidogion Cymru drwy gytundeb adran 83. Felly, caiff ffioedd ar gyfer mewnfurion eu coladu ar sail Cymru a Lloegr ac nid ydynt ar gael mewn fformat sydd wedi'i ddadgyfuno.

Amcangyfrifir y bydd effaith y newidiadau arfaethedig ledled Cymru ar fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol yn arbed tua £60 mil y flwyddyn yng Nghymru oherwydd lefelau is o wiriadau ac effaith ddilynol ar ffioedd. Fodd bynnag, gall y ffordd y caiff llwythi cymysg eu rheoli arwain at oradfer swm bach iawn o £1.5 mil.

Nid oes unrhyw effaith sylweddol, neu ddim effaith sylweddol o gwbl, ar y sector cyhoeddus o ganlyniad i newidiadau polisi a gyflwynir o dan yr offeryn hwn.

Mae codi ffi safonol ledled Cymru a Lloegr yn cydymffurfio â fframwaith cyffredin Iechyd Planhigion: [CP 612 – Fframwaith Cyffredin Dros Dro'r DU ar Iechyd Planhigion – Cytundeb a Choncordat Amlinellol o'r Fframwaith Dros Dro \(publishing.service.gov.uk\)](#). Mae'r diwygiadau yn yr offeryn hwn yn cynnal y polisi presennol ar gyfer masnach o fewn y DU; na ddylai gwasanaethau allforio a chyn-allforio llawn fod yn faich ariannol ychwanegol ar fusnesau wrth symud nwyddau o fewn marchnad fewnol y DU. Ni fyddai opsiynau polisi eraill yn bodloni'r amcan polisi.

O ran Deddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith ar bartneriaid statudol (adrannau 72-75). Mae swyddogion wedi ystyried nad oes unrhyw effeithiau ar hawliau plant, cydraddoldeb, prawfesur polisiâu gwledig, diogelu data, yr iaith Gymraeg, bioamrywiaeth neu effeithiau economaidd-gymdeithasol o ganlyniad i newidiadau polisi a gyflwynwyd o dan yr offeryn hwn.

9. Asesu'r Gystadleuaeth

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau Cymru.

10. Adolygiad ôl-weithredu

Mae ffioedd iechyd planhigion yn ddarostyngedig i adolygiad blynyddol.